| Dyddiad | Datgan Buddiant | Presennol | Penderfyniadau a Gytunwyd |
|---|---|---|---|
| 5/10/23 | Dim | **Presennol :** Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Tony Parry, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Rhys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Clare Mackintosh, Moira Mai, Eric Williams, John C Williams a Sion McGuiness.<br><br>Lis Puw *(Cyn Glerc)*.<br>Huw Antur *(Clerc Newydd)* | **Trefniadau Sul y Cofio:** Atgoffwyd yr aelodau am drefniadau Sul y Cofio ar Dachwedd 12fed, ac fe anogwyd y Maer a'r cynghorwyr i fynychu'r gwasanaeth ger y Gofeb Goffa.<br>**Gohebiaeth Bestway:** Nodwyd na chafwyd ymateb i'r ohebiaeth ynglŷn â chyflwr siop Bargain Booze. Trafodwyd y posibilrwydd o godi'r mater gyda Swyddog Gorfodaeth Cyngor Gwynedd, ac i geisio cymorth y Cyng Dilwyn Morgan gyda hyn.<br>**Rheolau Sefydlog:** Cafwyd trafodaeth ar gymal 27 o'r Rheolau Sefydlog sy'n nodi trefniadau iaith y Cyngor. Cytunwyd i gael arweiniad Menter Iaith Gwynedd ar y mater yma, ac i ail drafod y mater yn dilyn derbyn eu harweiniad.<br>**Is-bwyllgor Tref Gyfeillgar**: Cafwyd adroddiad gan Eluned Jones, ac adroddodd ei bod wedi cyfarfod staff y Tim Taclus. Cafwyd trafodaeth ar leoliad meinciau'r Stryd Fawr (ee ger Banc HSBC a ger Siop Ria), a phenderfynwyd gofyn i'r Cyng Dilwyn Morgan i drefnu fod meinciau yn cael eu symud o'r Clwb Rygbi i'r ardal o flaen Canolfan Bro Tegid. Dywedodd Eric Williams y byddai'n trafod lleoliad mainc ger Siop Ria gyda'r Cyng Morgan. Cytunwyd y byddai'n dda cael mwy o flodau i harddu'r dref.<br>**Is Bwyllgor Cyllid:** Cafwyd adroddiad o'r broses o recriwtio Clerc a Swyddog Cyllid, ac fe amlinellwyd y broses o greu Swydd Ddisgrifiad, o hysbysebu'r swydd ac o gyfweld yr ymgeiswyr. Cytunwyd i gadarnhau penderfyniad yr Is Bwyllgor i benodi Huw Antur Edwards, a hynny ar Raddfa NALC 22, 40 awr y mis. Cadarnhawyd hefyd y penderfyniad o glustnodi hyd at £5,000 tuag at ddathliadau Y Bala – Yma o Hyd.<br>**Cymdeithas Chwaraeon y Bala a Phenllyn:** Cafwyd adroddiad gan Jacqueline Allen, ac adroddodd fod y Clwb Criced bellach yn aelodau o'r Gymdeithas. Dywedodd hefyd fod y Gymdeithas yn bryderus am rannu llwybr ger y Pafiliwn, ac am y ffaith fod sefydliadau eraill yn y dref yn llwyddo i ddenu grantiau. Trafodwyd y broblem o faw cŵn yn yr ardal, a nodwyd y byddai'n dda i'r Warden Cŵn fod yn yr ardal yn gynnar, rhwng 7am ac 8am – y Clerc i gysylltu. Awgrymwyd hefyd y byddai cyfuniad o arwyddion a sticeri yn tynnu sylw perchnogion cŵn at y broblem. |